

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 26 Mehefin, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Miss N Williams, (Benllech B).

23 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr I Williams, (Benllech B).

24 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Mai, 2017.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD

25 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan Aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

26 UN LLAIS CYMRU – PWYLLGOR ARDAL YNYS MON.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod y 30 Mawrth 2017 o Bwyllgor Ardal Ynys Mon a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llangefni.

27 UN LLAIS CYMRU – PWYLLGOR ARDAL YNYS MON.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod cyffredinol blynyddol a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llangefni ar y 7 o Orffennaf 2016.

28 GRANTIAU A RHODDION.

Cyflwynwyd – Cais am grant gan y canlynol :-

- (i) Ysgol Goronwy Owen, Benllech.
- (ii) Cynllun Cylch Tro Da, Benllech a'r Cylch.

PENDERFYNWYD – ar sail y pwerau a roddwyd yn Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac oherwydd bod y Cyngor o'r farn fod y gwariant yn unol a gofynion yr Adran, cymeradwyo talu :-

(1) Grant o £1,000 i Ysgol Goronwy Owen, Benllech.

(2) Grant o £100 i Gynllun Cylch Tro Da, Benllech a'r Cylch.

29 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Photostatic	Llungopio	£9-17
Scottish Power	Trydan	£22-63

30 CYFRIFON.

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym Mai 2017.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

31 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2017 i ddiwedd mis Mai 2017.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

32 CYF – ETHOL AELODAU NEWYDD I'R CYNGOR CYMUNED.

Yn dilyn yr hysbyseb a ddangoswyd yn y tair Ward i lenwi chwe sedd wag cafwyd cais gan bump o etholwyr o fewn dalgylch y Cyngor Cymuned, sef, Mrs Sioned Edwards, Mrs Barbara Gall, Mr Graham Harker-Roberts, Mrs Carol Hulme a Mr Gareth Owen.

PENDERFYNWYD – cyf-ethol y pump ymgeisydd i'r Cyngor Cymuned.

33 FANDALIAETH PELLACH YNG NGHAER BERLLAN.

Eglurodd y Clerc fod fandaliaeth pellach wedi digwydd yn y maes chwarae yn dilyn yr un patrwm ac yn 2016, sef, difrod i un o'r paneli terfyn a malurio gwyneb diogelwch sydd yn amgylchynu'r cylchdro. Roedd y mater wedi ei gyfeirio i'r Heddlu ac yn dilyn tystiolaeth gweledol ar y sustem Teledu Cylch Cyfyng, mae'r mater yn symud yn ei flaen.

Ar yr un pryd roedd archwiliad blynyddol ROSPA o'r maes chwarae yn cymeryd lle. Eglurwyd y sefyllfa ynglyn a'r difrod i'r archwilydd ym mlaen llaw a bod gwaith atgyweirio y difrod wedi ei gytuno gyda chwmni MacVenture o Langefni a phris wedi ei dderbyn.

PENDERFYNWYD - cadarnhau derbyn y pris a symud ymlaen a'r gwaith cyn gynted a phosib.

34 CYNGOR SIR YNYS MON - PWYLLGOR SAFONAU.

Derbyniwyd llythyr gan Swyddog Monitro Cyngor Sir Ynys Mon yn hysbysu fod tymor y ddau gynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau wedi dod i ben yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Roedd felly gynnig i bob Cyngor i enwebu un o'i aelodau etholedig i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau a dylid anfon ffurflen gais i'r Swyddog Monitro cyn 5-00 yr hwyr ar y dydd olaf ym mis Gorffennaf, 2017.

PENDERFYNWYD – peidio enwebu aelod gan nad oedd diddordeb.

35 CYNGOR SIR YNYS MON – TOILED AU CYHOEDDUS YN NALGYLCH Y CYNGOR CYMUNED.

Cafwyd llythyr gan Gyngor Sir Ynys Mon, Adran Priffyrdd a Gwastraff yn rhoi cynnig terfynol i'r Cyngor Cymuned i reoli Toiledau Sgwar Benllech, Traeth Benllech a Thraeth Coch. Roedd y cynnig yn gofyn am fynegiant difrif o ddiddordeb gan y Cyngor Cymuned ac roedd angen ateb erbyn y 3 o Orffennaf 2017.

Trafodwyd y cynnig a oedd yn cynnwys dileu'r Dreth Cyngor yn gyfangwbl, gwneud rhodd o gostau glanhau y tri toiled am y flwyddyn gyntaf o'r denantiaeth. Yn ogystal roedd swm o £4096 wedi cael ei wario ar doiled y Traeth yn ddiweddar i wella'r adeilad.

Roedd rhai aelodau o blaid cymeryd y Toiledau trosodd eraill yn gweld y baich ariannol hir dymor yn ormod o fenter. Yn anffodus gyda dim ond pedwar aelod yn bresennol nid oedd yn bosib cael cytundeb a gofynwyd i'r Clerc ymdrechu i gael estyniad amser a galw cyfarfod pellach o'r Cyngor Cymuned yn y gobaith o gael mwy o aelodau i drafod y mater pwysig yma.

36 CYNGOR SIR YNYS MON – CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF LLYWODRAETHWYR YSGOLION.

Cafwyd llythyr gan Adran Addysg Cyngor Sir Ynys Mon yn gofyn am gadarnhad o Gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned ar Gyrrff Llywodraethu y ddwy ysgol sydd o fewn dalgylch y Cyngor Cymuned, sef, Ysgol Goronwy Owen Benllech ag Ysgol Llanbedrgoch. Hefyd fod llythyr yn cael ei anfon i'r ddwy Ysgol yn enwi'r Cynrychiolwyr.

PENDERFYNWYD – fod Ms Gwyneth Davies yn cynrychioli yn Ysgol Llanbedrgoch a Miss Nia Williams yn cynrychioli yn Ysgol Goronwy Owen.

37 GWEITHIWR TYMHOROL I'R CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Pwyllgor Personel i gyfweld y ddau ymgeisydd i'r swydd o Weithiwr Tymhorol i'r Cyngor Cymuned. Roedd profiad o waith atgyweirio adeiladau, cloddiau, a gwaith coed gan y ddau ymgeisydd ond roedd profiad helaeth o arddio gan yr ail ymgeisydd. Yn ogystal roedd ganddo Dystysgrifau defnyddio chwyn lladdwyr a defnyddio offer torri coed ynghyd a fan bwrpasol. Gofynwyd i'r ddau ymgeisydd a oeddent mewn sefyllfa i agor a chau y toiledau ym Menllech, petai y trosglwyddo asedau gan Gyngor Sir Ynys Mon yn symud ymlaen. Nid oedd yr un o'r ddau mewn sefyllfa i ymrwymo i amserlen gaeth fuasai agor a chau toiledau yn ei olygu.

PENDERFYNWYD – ar ol trafodaeth cynnig y Swydd i'r ail ymgeisydd, Mr Fred Rimmer, yn ddibynol ar dderbyn cymeradwyaeth ffafriol gan ddau berson a tystiolaeth o yswiriant “Public Liability”, gan yr ymgeisydd.

CYNLLUNIO

38 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatau :

30C809A/TP	Llys yr Haf, Ffordd Cynlas, Benllech
------------	--------------------------------------

39 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-35 yr hwyr.